**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1294
Ein cyf/Our ref EM/04146/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

06 Ionawr 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Tachwedd ynglŷn â deiseb (P-06-1294) ar gyfer gwella gofal canser y fron metastig, sef Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastig y tu ôl.

Roeddwn yn falch o'r cyfle i gyfrannu at y ddadl ar 19 Hydref, a hoffwn ddiolch unwaith yn rhagor i chithau yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau ac i'r deisebydd am godi'r mater pwysig hwn.

Gallaf gadarnhau bod Rhwydwaith Canser Cymru wedi dechrau gweithio ar set o lwybrau canser metastig a gytunir yn genedlaethol, gan ddechrau gyda chanser y fron metastig. Grŵp sy'n arbenigo mewn canser y fron o fewn y Rhwydwaith fydd yn eu datblygu, ac wedyn bydd cynnyrch ei waith yn mynd drwy broses gymeradwyo cyn cael ei gyhoeddi. Ni allaf ddarparu llinell amser ar gyfer y gwaith hwn gan y bydd yn dibynnu ar ba mor gyflym y gellir cyrraedd consensws clinigol ar gynnwys y llwybr ac a oes unrhyw oblygiadau sylweddol i wasanaethau y bydd yn rhaid eu hystyried cyn ei fabwysiadu.

Roedd argymhellion Rhwydwaith Canser Cymru ynghylch canser y fron metastig i fod i gael eu hystyried gan Fwrdd y Rhwydwaith ym mis Tachwedd, ond yn anffodus cafodd hynny ei ohirio tan ei gyfarfod ym mis Ionawr. Gallaf gadarnhau eu bod yn cynnwys argymhelliad ar gyfer datblygu llwybr canser y fron metastig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi oddeutu £11 miliwn, gan gynnwys cyllid cyfalaf a refeniw, i ddarparu adnodd arall a all ddarparu swyddogaeth System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru (CaNISC). Cafodd y cyllid hwn ei neilltuo at ddibenion cyflwyno System Gweinyddu Cleifion Cymru yng Nghanolfan Ganser Felindre, i ddisodli'r dull cofnodi clinigol a ddarperir gan CaNISC, er mwyn gwella'r gallu i drin data – megis darparu data ar gyfer cynllunio a datblygu gwasanaethau. Diben y cyllid yw datblygu a gweithredu'r system newydd, yn hytrach na thrin a thrafod ei hallbynnau data. Mae gan

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwydwaith Canser Cymru nifer o arbenigwyr gwybodaeth sy’n cefnogi’r gwaith o ddefnyddio data canser, er nad ydynt yn ddadansoddwyr data proffesiynol.

O ran atgyfnerthu ymwybyddiaeth meddygon teulu o symptomau canser y fron metastig, rydym yn disgwyl i feddygon teulu ddefnyddio’r canllaw cyfeirio ar gyfer symptomau a ddarperir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Rydym hefyd yn disgwyl i feddygon teulu fod yn ymwybodol o hanes meddygol yr unigolyn, ac mae Rhwydwaith Canser Cymru yn gweithio i ddatblygu crynodebau electronig safonol o driniaeth a fyddai’n cael eu darparu wrth i gleifion gael eu rhyddhau o wasanaethau canser, ac a fyddai’n cynnwys symptomau bod canser wedi dychwelyd. Mae Porth Clinigol Cymru a Phorth Cyfathrebu Clinigol Cymru yn caniatáu i feddygon teulu gyfathrebu ag ymgynghorwyr mewn ysbytai ynghylch yr angen i atgyfeirio claf. Yn ogystal â hynny, mae Rhwydwaith Canser Cymru yn treialu defnyddio rhaglen ddigidol o’r enw ‘*C the signs*’ i helpu meddygon teulu i wneud penderfyniadau ynghylch atgyfeirio os ydynt yn amau bod claf yn dioddef o ganser.

Cyfrifoldeb y byrddau iechyd yw defnyddio’r gweithlu sydd ar gael iddynt mewn modd sy’n bodloni anghenion eu poblogaeth. Rydym yn disgwyl iddynt wneud hynny’n unol â safonau cenedlaethol. Nid yw’r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yn pennu y dylai’r gweithiwr allweddol fod yn nyrs arbenigol mewn canser y fron eilaidd. Rwy’n disgwyl i fenywod sydd â chanser y fron eilaidd gael eu cefnogi gan nyrsys sy’n arbenigo mewn canser, ond rwy’n croesawu datblygu rolau mwy arbenigol ar draws Cymru lle bo hynny’n briodol ac yn gynaliadwy.

Rwy’n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services